

2021/2022

# Adroddiad Sefydliadol #12

## Y cyfnod dan sylw: 1 Ionawr – 31 Mawrth 2022

Dosbarth Mesitr Cynrychioli Cymru, Canolfan Ysgrifennu **Tŷ Newydd**

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Mewnwelediadau**
Diweddariad COVID-19 .......................................................................... 3
Uchafbwyntiau Sefydliadol, Gweithgaredd a Gweithredol ........................ 4

**Effaith Sefydliadol**
Y newid tymor hir y byddwn yn eu cynhyrchu i Gymru.............................. 7

**Canlyniadau Sefydliadol**
Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleientiaid.............................................................................................. 7

**Allbynnau Sefydliadol**
Sylw i darged sydd heb ei gyflawni *NEWYDD.......................................... 8
Prif Nodau Llwyddiant mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd ..... 10
Mesurau Llwyddiant mewn perthynas â'n Blaenoriaethau Gweithredu.... 13

**Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru**
Ymgysylltu â'n sector............................................................................ 20

**Gwerthuso**
Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu.................................................................. 21
Gwersi i'w Dysgu o'n Gweithgareddau ....................................................22

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** (sy'n canolbwyntio ar ein tri Mesur Llwyddiant Allweddol ac un eitem ychwanegol) ac ein **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, yn ogystal â'n **Nodau Llwyddiant gweithredol** a'n **Gwersi i'w Dysgu.**

- Mae'r targedau sydd wedi eu cynnwys ar **gyfer blwyddyn 3** (2021/2022) y Cynllun Strategol. Mae'r targedau yma'n cynrychioli ein huchelgeisiau, sydd yn gysylltiedig â'r prosiectau yn ein rhaglen gweithgaredd a gweithredoedd presennol a'n patrymau gwleidyddol, demograffig ac economaidd presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar ffynonellau cyllid allanol, a bydd rhai'n cael eu haddasu neu'n troi'n annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd rhai prosiectau'n cael eu heffeithio gan ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol ni. Am y rhesymau hyn**, mae'r targedau hyn yn rhagolwg o sut fydd llwyddiant yn edrych ac mae'n bosib y cânt eu hadolygu'n rhesymegol.**

- Mae'r **adroddiad hwn yn cynnwys targedau wedi eu diweddaru ar gyfer 2022/2023.**

# Diweddariad **COVID-19**

**Adeg i fyfyrio, gwerthuso ac ailagor: edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, a pharatoi at y flwyddyn sydd i ddod.**

Dechreuodd 2022 drwy ailagor **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** a lansio rhaglen cyrsiau ysgrifennu creadigol 2022. Rydyn ni wrth ein boddau'n gallu croesawu awduron i'r ganolfan drachefn, ac yn ystod y flwyddyn, bydd 50 o awduron yn cymryd rhan yn y rhaglen, gan gynnwys nifer o awduron sydd wedi cyrraedd rhestrau'r gwerthwyr gorau, beirdd cenedlaethol eu statws, a beirdd sydd wedi ennill gwobrau lu.

Golygodd ailagor y ganolfan hefyd fod modd i **grŵp o awduron Cynrychioli Cymru 2021-22** gyfarfod wyneb yn wyneb am y tro cyntaf, a hynny ar gyfer eu dosbarth meistr olaf gyda'r tiwtor **Jacob Ross** a'r siaradwr gwadd, **Patience Agbabi**. Llwyddodd y penwythnos i ddyfnhau'r cyfeillgarwch oedd wedi datblygu rhwng aelodau'r grŵp yn ystod blwyddyn o weithgareddau digidol, gan ddangos y cysylltiadau gwell a hirdymor y gellir eu meithrin drwy gyfarfod wyneb yn wyneb.

Drwy gydol y flwyddyn, bydd Tŷ Newydd yn parhau i ddilyn y canllawiau swyddogol ac yn cyflwyno camau i ddiogelu awduron rhag y risg bosibl o COVID-19, gan gynnwys egluro'r canllawiau a'r gofynion i westeion cyn iddyn nhw gyrraedd, cyflwyno protocol newydd ar gyfer glanhau ac awyr iach, a chynnig polisi canslo mwy hyblyg i roi tawelwch meddwl i gwsmeriaid.

Byddwn ni hefyd yn edrych ar ffyrdd o leihau effaith salwch ymhlith staff Tŷ Newydd drwy hyfforddi gwahanol aelodau'r staff o'n dwy swyddfa i ymgyfarwyddo â pholisïau a phrotocolau iechyd a diogelwch y ganolfan, fel eu bod yn gallu camu i'r adwy pe bai angen.

Carreg filltir arall o bwys oedd ail-lansio ein prosiect iechyd a lles mewn partneriaeth â **Mind Casnewydd.** Dyma brosiect oedd wedi cael ei roi o'r neilltu dros dro, am bron i ddwy flynedd, yn sgil pandemig COVID-19. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, mae modd cynnal gweithdai wyneb yn wyneb drachefn. Prosiect yw hwn sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n byw â gwahanol gyflyrau iechyd meddwl. Nid oedd modd ei gynnal ar-lein gan y gallai'r cyfranogwyr wynebu allgáu digidol, a byddai elfen ddiogelu'r prosiect wedi'i gwanhau hefyd.

Wrth i weithgareddau wyneb yn wyneb ddychwelyd, byddwn ni hefyd yn parhau i edrych ar bosibiliadau digidol, gyda hygyrchedd yn ystyriaeth o bwys yn y prosiectau hyn. Mae ein cyfres ddigidol newydd, **Sgyrsiau Creadigol,** yn ceisio uwchsgilio hwyluswyr ledled Cymru ac wedi cynnwys gwasanaeth dehongli BSL a sgrindeitlo caeedig. Mae'r gyfres wedi bod yn boblogaidd iawn, ac felly hefyd **gyrsiau blasu digidol wythnosol Tŷ Newydd.**

Mae diwedd y flwyddyn ariannol yn adeg naturiol i fyfyrio wrth inni ystyried y gwersi i'w dysgu ynghyd â'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn o darfu, pryderu, heriau a phontio tuag at batrymau gweithio ystwyth. Rydyn ni'n falch o'r gwaith a wnaed yn ystod y chwarter hwn a'r flwyddyn ddiwethaf, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn llawn brwdfrydedd, creadigrwydd a gobaith.




Visitor World Map at Tŷ Newydd Writing Centre

# Uchafbwyntiau

## Sefydliadol

- Bu newid yn Llenyddiaeth Cymru yn ystod y chwarter hwn wrth i ni groesawu **Marvin Thompson** fel ein Harweinydd Creadigol.
- Gadwodd **Elena Schmitz** yn y chwarter hwn hefyd, ar ôl bron i 14 mlynedd gyda'r cwmni.
- Daeth cyfnod **Elizabeth George** fel un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd i ben, a chyhoeddodd y Prif Weithredwr, **Lleucu Siencyn,** ei bod yn symud i swydd newydd gyda Chyngor y Celfyddydau, felly dechreuodd y gwaith cynllunio ar gyfer ei holynydd.
- Mae **dwy** swydd newydd wedi'u creu. Y swyddi hyn yw **Cymorth Gweithredol** amser llawn, i helpu gyda gweithgareddau yn Nhŷ Newydd, a **Chydlynydd Cyfathrebu** amser llawn. Mae modd darllen am y ddwy swydd fan hyn.

## Gweithgareddau

- Dechreuodd Sgyrsiau Creadigol, sef cyfres o ddigwyddiadau ar-lein, rhad ac am ddim, ym mis Chwefror. Dechreuodd y sesiynau gyda **Mel Perry** a **Kerry Steed** yn trafod **Ysgrifennu er Lles**, a chymerodd 10 o bobl ran i gyd.
- Ym mis Ionawr, lansiwyd rhaglen o gyrsiau ac encilion **Tŷ Newydd** 2022, gyda chwrs preswyl Llyfrau i Bawb: Creu Cymeriadau o Liw i Blant, yn cael ei gynnal ym mis Mawrth. I wybod mwy am yr awduron unigol, darllenwch y stori newyddion fan hyn.
- Defnyddiwyd ffordd newydd o gyflwyno galwad am swydd y **Bardd Cenedlaethol**, lle gallai unigolion enwebu bardd arall, neu eu hunain, am y swydd llawn bri, ac ym mis Mawrth cyhoeddwyd pwy yw'r panel dethol.
- Helpodd Llenyddiaeth Cymru i hwyluso llenyddiaeth ymhlith sefydliadau nad ydyn nhw'n arbenigo yn y maes drwy ffurfio partneriaeth â **Cyfoeth Naturiol Cymru** ar gyfer eu prosiect Natur a Ni, lle bydd dau fardd preswyl yn gweithio tuag at ddeall yr argyfwng hinsawdd yn well yng Nghymru, a thrwy gefnogi Criw Creu, sef prosiect gan y **Theatr Genedlaethol** gyda chefnogaeth Urdd Gobaith Cymru i sicrhau bod gan bobl ifanc well mynediad i'r celfyddydau.
- Parhaodd gweithgareddau cyfranogol wrth i brosiectau trydedd rownd **Gwaith Comisiwn i Awduron** gael eu cwblhau. Ym mis Mawrth, roedd y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb yn y bedwaredd rownd, gyda'r rownd hon yn canolbwyntio ar natur a'r amgylchedd er budd llesiant.




The series of free online events, Creative Conversations, began in February.

## Gweithredol

- Cwblhaodd y staff amrywiaeth o hyfforddiant allanol yn y chwarter hwn, gan gynnwys hyfforddiant **GDPR,** hyfforddiant **diogelu** gan **Y Bont,** a hyfforddiant **ymwybyddiaeth o fyddardod** gan **Taking Flight.** Ymunodd **Celfyddydau Anabledd Cymru** â chyfarfod staff er mwyn gwella ymwybyddiaeth a rhoi cyngor am ddarparu gweithgareddau hygyrch, wyneb yn wyneb ac ar-lein ill dau.
- Cafodd y staff hefyd amrywiaeth o hyfforddiant mewnol; rhoddwyd **hyfforddiant cyllid** i'r bwrdd a'r staff, gyda'r staff yn creu rhagolwg ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, a dechreuodd **Branwen Llewellyn,** yr Arweinydd Cyfathrebu Dros Dro, gyfres o sesiynau cyfathrebu creadigol i'r staff.
- Cyflwynwyd **systemau newydd**, ar ffurf taenlen ar gyfer cynllunio prosiectau, a log cefnogaeth i'r sector, sy'n ceisio gwella'r modd rydyn ni'n casglu gwybodaeth am effaith ein gweithgareddau ac yn ymgynghori â'r holl sector. Adolygwyd **contractau hwyluswyr** hefyd, gan gael gwared ar jargon i sicrhau tryloywder i artistiaid a staff fel ei gilydd, a chafodd templed ei greu ar gyfer llunio rhestr o ofynion hygyrchedd.
- Adolygwyd y penderfyniad i rannu'r Uwch Dîm Arwain yn ddau is-grŵp ar gyfer pynciau gweithredol a chreadigol, gan gyflwyno cyfarfod misol ar y cyd ar gyfer eitemau cyffredin.




Ymunodd **Marvin Thompson** â ni fel yr Arweinydd Creadigol newydd.




Mae Criw Creu yn brosiect newydd gan Theatr Genedlaethol Cymru gyda chymorth Llenyddiaeth Cymru ac Urdd Gobaith Cymru, gyda'r nod o roi mynediad i'r celfyddydau i bobl ifanc.



Lansiodd Ymddiriedolaeth **Genedlaethol Cymru** #GwleddyGwanwyn yn y Senedd gyda cherdd newydd gan y **Children's Laureate**, Connor Allen.




Ailagorodd y broses ymgeisio ar gyfer swydd **Bardd Cenedlaethol Cymru** gan ddefnyddio dull newydd, sef galwad am enwebiadau.



Lansiwyd Rhaglen **Tŷ Newydd** 2022 o gyrsiau digidol a phreswyl




Croesawyd **8** o awduron newydd i **Dŷ Newydd** ar gyfer cwrs 'Llyfrau i Bawb'.



Daeth **Durre Shahwar** ac **Elan Grug Muse** yn feirdd preswyl y sgyrsiau **Natur a Ni**, dan arweiniad **Cyfoeth Naturiol Cymru** ac mewn partneriaeth â **Llenyddiaeth Cymru.**



Agorodd **Gwaith Comisiwn i Awduron** #4 ym mis Mawrth, gan ganolbwyntio ar thema natur a'r amgylchedd er budd llesiant.




Cyhoeddwyd enwau beirniaid Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn Gymraeg a Saesneg.

**Fe ddywedon ni y bydden ni'n datblygu potensial creadigol a phroffesiynol ein hegin awduron.**

Rydyn ni'n gwneud hyn drwy roi cyfleoedd i awduron Cymru hogi eu sgiliau a datblygu sgiliau amrywiol.

**Ffigurau ers mis Ebrill 2019 ...**

**754**
o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol wedi'u darparu i egin awduron

**82, 896**
o dudalennau wedi'u gweld yn unigryw ar y rhan o'r wefan am ddatblygu awduron

**453**
rhoddwyd cefnogaeth barhaus i 453 o awduron ifanc (16-30 oed).

**701**
o gyfranogwyr ar gyrsiau Tŷ Newydd, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol



Ffigyrau o 1 April 2019 – 31 March 2022
*Ffynhonnell: Ein adroddiadau monitro a gwerthuso

# Uchafbwynt: **Datblygu Awduron**

Mae awduron yn greiddiol i'r gwaith rydyn ni'n ei wneud, ac rydyn ni'n credu mewn buddsoddi mewn unigolion ar yr adeg iawn er mwyn sicrhau'r datblygiad artistig a phroffesiynol gorau posibl, annog awduron newydd i gymryd risgiau, a meithrin hyder awduron yn eu gallu a'u sgiliau. Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i gynnig cyfleoedd cyffrous ac amrywiol, rydyn ni wedi darparu rhaglen gref o weithgareddau digidol a gweithgareddau wyneb yn wyneb, ac wedi creu llwybrau gyrfa i awduron wrth iddyn nhw ddatblygu'n greadigol ac yn broffesiynol.

## Lansio Rhaglen Tŷ Newydd 2022

Roedden ni wrth ein boddau'n ailagor drysau Tŷ Newydd drachefn ac yn lansio rhaglen newydd, gyffrous. Bydd yr **argyfwng hinsawdd** ac **iechyd a llesiant** yn themâu cryfion drwy gydol y flwyddyn wrth inni annog awduron i ystyried y pynciau hyn ac ymateb iddyn nhw'n greadigol.

Byddwn yn mynd ati i gyfrannu at greu cynrychiolaeth fwy cyfartal yn niwylliant llenyddol Cymru gyda chyrsiau fel ein cwrs Llyfrau i Bawb, lle bu 8 o awduron o liw yn datblygu eu hysgrifennu creadigol i blant a phobl ifanc. Ymhlith cyrsiau eraill sy'n canolbwyntio ar **gynrychiolaeth a chydraddoldeb,** mae ein cwrs Stori i Bawb a'n hencil sgiliau sgriptio sydd i'w ddarparu ar y cyd â Theatr y Sherman.

**60**
o fynychwyr digidol

**6**
darparu 6 chwrs digidol

**28**
lansio 28 o gyrsiau preswyl

"Roeddwn i wrth fy modd yn cael cyfle i greu syniadau newydd a sgwrsio am farddoniaeth mewn cyfnod byr... Roedd hyn yn berffaith."
-Cyfranogwr

## Cyfres newydd i awduron ac arweinwyr gweithdai: Sgyrsiau Creadigol

Cyfres newydd o chwe digwyddiad byr yw Sgyrsiau Creadigol, yn cynnig cyfleoedd agored a hygyrch i ddysgu am ddefnyddio llenyddiaeth mewn lleoliadau cyfranogol. Maen nhw'n gyfle hefyd i bobl gwrdd ag awduron o gyffelyb fryd; cyfnewid syniadau; rhannu arferion gorau, adnoddau a chysylltiadau; a mwynhau sgyrsiau creadigol â'i gilydd.

"Cyfle gwych i gysylltu â phobl eraill, clywed eu cefndiroedd, a deall eu safbwyntiau."
- Cyfrangowr

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Effaith Sefydliadol a Chanlyniadau

## Effaith Sefydliadol:

Byddwn wedi dechrau grymuso, gwella a dyrchafu bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at wella eu llesiant hwy ynghyd â llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru.

## Canlyniadau Sefydliadol:

Bydd ein cleientiaid wedi dechrau meithrin y canlynol:

- **Gwell** sgiliau siarad ac ysgrifennu
- **Mwy** o hunanhyder
- **Gwell** cyflogadwyedd
- **Llai** o bobl yn teimlo'n ynysig
- Risg **is** o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well
- Y cyfle i **brofi** bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd
- **Gwell** gallu i ddangos empathi
- **Gwell** sgiliau amlieithog

## Mesur Effaith Hirdymor:

Oherwydd COVID-19, y cyfraddau ymateb a chapasiti'r staff, fe wnaethon ni ailasesu'r modd y mae'r Arolwg Hydredol yn cael ei gynnal. Gwnaed y penderfyniad i ailddechrau'r Arolwg Hydredol ar ôl cael canlyniadau'r arolwg rhanddeiliaid, y bwriedir ei gynnal ym mis Ionawr 2023. Byddwn yn ailddylunio'r arolwg rhanddeiliaid, er mwyn gofyn cwestiynau sydd wedi'u targedu a chwestiynau penodol, gan helpu i ganfod unigolion newydd i gymryd rhan yn yr Arolwg Hydredol.

Yn y cyfamser, rydyn ni'n dal mewn cyswllt â'r sampl presennol o gleientiaid wrth iddyn nhw barhau i ymwneud â Llenyddiaeth Cymru, sefydliadau eraill a chyfleoedd proffesiynol.  Mae rhaglen ôl-ofal Cynrychioli Cymru ar gyfer y grŵp cyntaf o awduron wedi dechrau, a byddwn yn dewis trawsdoriad o'u plith i olrhain eu datblygiad dros y blynyddoedd nesaf.

Yn y chwarter hwn, rydyn ni hefyd wedi cyflwyno cronfa ddata fewnol i awduron, sy'n ceisio olrhain awduron sydd wedi gwneud cais a/neu sydd wedi bod yn llwyddiannus drwy ein cyfleoedd proffil uchel, er mwyn canfod a datblygu eu gyrfaoedd ymhellach.

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr– 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Cyffredinol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi cynyddu 3.1 pwynt canran o 9.4% yn 2021. | Nid yw canlyniadau Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru 20/21 wedi'u rhyddhau eto. | Fel ar y chwith. | Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogi yn y celfyddydau |
| Mae o leiaf **100,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidfa** yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol, o gymharu â 367,236 yn 2020/2021. | Yn ystod y chwarter hwn, mae 7,167 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau wyneb yn wyneb. Rydyn ni hefyd wedi ymwneud â 20,925 o bobl drwy ein gweithgareddau digidol, gan gynnwys ein hadnoddau a'n gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol, ar fideos, ac ar-lein. | Ers mis Ebrill 2021, mae 151,970 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi ymwneud â'n gweithgareddau (yn cynnwys ffigurau digidol). | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| Mae o leiaf 50**% o'n cyfranogwyr creadigol** yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed. | Oherwydd COVID-19, mae'r targed hwn wedi'i roi o'r neilltu dros dro. Mae nifer o'n gweithdai wedi'u gohirio ac rydyn ni'n dal i ddatblygu a chyflwyno fframwaith i gasglu data gan y rheini sy'n ymwneud â'n holl gomisiynau digidol. | Fel ar y chwith. | Ffurflenni monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Mae o leiaf **550 cyfranogwr creadigol** yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol, o gymharu â 694 yn 20/21. | Mae **83** o gyfranogwyr creadigol wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron yn y cyfnod uchod. | Mae cyfanswm o **161** o gyfranogwyr creadigol wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron ers mis Ebrill 2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Cynnyrch Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgareddau: Datblygu Awduron

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Cyffredinol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **Darparu o leiaf 300 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron yn flynyddol, o'i gymharu â 280 yn 20/21.** | Darparwyd 29 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron yn y chwarter hwn. Er enghraifft, ym mis Chwefror, bu tri egin awdur yn tiwtora eu cyrsiau blasu digidol cyntaf yn Nhŷ Newydd. | I gyd, rydyn ni wedi darparu 181 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron ers mis Ebrill 2021. Yn fwy diweddar, rydyn ni wedi cyflwyno taenlen ar yfer cynllunio prosiectau, sy'n ceisio atgoffa staff i gysylltu ag awduron i weld pa ddatblygiadau a llwyddiannau maen nhw wedi'u profi y tu hwnt i'n gweithgareddau ni. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| **Y tudalennau sy'n rhoi gwybodaeth am ddatblygu awduron ar-lein yn cael eu gweld o leiaf 37,000 o weithiau'n unigryw bob blwyddyn, o'i gymharu â 33,463 o weithiau yn 20/21.** | Gwelwyd ein tudalennau am ddatblygu awduron 3,747 o weithiau'n unigryw yn y chwarter hwn. Rydyn ni hyd yma wedi cynnal dau ddigwyddiad byw i roi hyfforddiant i awduron, ac wrthi'n datblygu gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol i awduron ym mhob cyfnod yn eu gyrfaoedd. | I gyd, mae ein tudalennau am ddatblygu awduron wedi'u gweld 14,264 o weithiau'n unigryw. | Google Analytics |
| **Rhoi cefnogaeth barhaus i gyfanswm o 150 o awduron ifanc (16-30 oed) yn flynyddol, o'i gymharu â 175 yn 20/21.** | Cafodd 18 o awduron ifanc gefnogaeth barhaus yn y cyfnod hwn. | I gyd, rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth barhaus i 138 o awduron ifanc ers mis Ebrill 2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |

# Cynnyrch Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgareddau: Diwylliant Llenyddol Cymru

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Cyffredinol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| O leiaf **260 o awduron profiadol** a **400 o weithiau llenyddol** yn rhan o brosiectau proffil uchel bob blwyddyn, o'i gymharu â 234 a 410 yn y drefn honno yn 20/21. | Mae **11 o awduron profiadol** ac **1 gwaith llenyddol** wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel yn y chwarter hwn. | Bu cyfanswm o **150** o awduron a **432** gwaith llenyddol yn rhan o brosiectau proffil uchel ers mis Ebrill 2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| Byddwn yn cydweithio ac yn hwyluso **o leiaf 23 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid** y tu allan i Gymru bob blwyddyn, o'i gymharu â 18 yn 20/21. | Rydyn ni wedi hwyluso a chydweithio ar **0 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru**. | I gyd, rydyn ni wedi hwyluso a chydweithio ar **13** o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru ers mis Ebrill 2021. | |
| Drwy ein hymyriadau, rhoi o leiaf **80 comisiwn y flwyddyn** i awduron profiadol gan sefydliadau eraill, o'i gymharu â 114 yn 20/21. | Mae **12 o gomisiynau** wedi'u rhoi i awduron profiadol gan sefydliadau eraill yn y chwarter hwn gan gynnwys Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn comisiynu Connor Allen, y Children's Laureate Wales, i ysgrifennu cerdd i lansio eu hymgyrch #GwleddyGwanwyn. | I gyd, drwy ein hymyriadau ni, mae **38** o gomisiynau wedi'u rhoi i awduron profiadol gan sefydliadau eraill ers mis Ebrill 2021. | |
| Isafswm o **60** o **egin awduron** yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel bob blwyddyn, o'i gymharu â 57 yn 20/21. | Mae **107 o egin awduron** wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel gan gynnwys ymgeiswyr i raglen Cynrychioli Cymru 2022-23 ac enwebiadau Bardd Cenedlaethol Cymru. | I gyd, mae **164** o egin awduron wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel ers mis Ebrill 2021. | |

# Cynnyrch Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: Monitro a Gwerthuso

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Cyffredinol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| 100% o'n data o'n prosiectau gweithgareddau a'n prosiectau gweithredol wedi'u storio ar ein porth monitro a gwerthuso canolog | Rydyn ni wedi canfod nad yw ein holl ddata am weithgareddau a materion sefydliadol yn cael eu casglu'n fisol drwy ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau. Datblygwyd a chyflwynwyd fframwaith effaith newydd yn chwarter 4, gyda'r staff yn cael hyfforddiant ynghylch sut i gasglu data a straeon yn well. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau<br>Yr arolwg marchnata a chyfathrebu |
| 1 Adroddiad Blynyddol yn cyfathrebu ein heffaith wedi'i gylchredeg | Rydyn ni wedi creu Adroddiad Blynyddol 2020/2021 yn llwyddiannus. | Fel ar y chwith. | |
| 12 adroddiad gwerthuso misol [WEDI'U RHOI O'R NEILLTU AM Y TRO YN 21/22] a 4 adroddiad gwerthuso chwarterol wedi'u llunio | Dyma'r pedwerydd adroddiad gwerthuso chwarterol yn 2021/2022. Mae'r cynllun i greu adroddiadau misol wedi'i roi o'r neilltu am y tro ac rydyn ni ar hyn o bryd wrthi'n edrych ar ddulliau gwahanol er mwyn gwella cyfathrebu mewnol yn y sefydliad. Bydd y targed hwn yn cael ei newid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, wrth inni gyflwyno adroddiadau effaith a chyfathrebu drwy gydol y flwyddyn, er mwyn creu darlun o sut rydyn ni'n gweithio tuag at ein nodau. | Rydyn ni wedi creu 4 adroddiad chwarterol ers mis Ebrill 2021. | |
| Y syniadau ar gyfer 100% o brosiectau newydd neu brosiectau parhaol yn cael eu cynnig i'r Uwch Dîm Arwain, a phob un yn cyfeirio at wersi i'w dysgu o'n dadansoddiadau | Mae 100% o'r syniadau am brosiectau wedi'u cyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain yn y cyfnod uchod, ac mae'r staff yn dal i ymwneud yn dda â'r broses newydd ar gyfer cynnig syniadau. Mae'r adborth gan y staff yn awgrymu bod y Cyfarfodydd Creadigol misol wedi bod yn ddefnyddiol i fireinio syniadau am brosiectau cyn eu cyflwyno. | Fel ar y chwith. | |

# Cynnyrch Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: Adnoddau Dynol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Cyffredinol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| 100% o'r staff wedi mynychu o leiaf 3 sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol | Yn y cyfnod uchod, bu 100% o'r staff yn rhan o sesiynau hyfforddiant i'r holl dimau, yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys gweithdy Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru y bu'r Uwch Dîm Arwain yn rhan ohono, a sesiynau cynefino a sesiynau trosglwyddo prosiectau mewnol. Mae sesiynau diweddar wedi cynnwys Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod gyda Taking Flight Theatre ac roedd sesiwn arall yn canolbwyntio ar hwyluso a chyfathrebu. | Mae 100% o'r staff wedi bod i o leiaf 3 sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol ers mis Ebrill 2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| O leiaf 4 aelod o staff i elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau) bob blwyddyn | Mae 4 aelod o staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus, gan gynnwys ein Prentis Cadw Llyfrau, a ddechreuodd gwrs hyfforddiant wythnosol yr AAT ddiwedd mis Medi. Mae 3 aelod o staff hefyd yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg rheolaidd. | Mae 4 aelod o'r staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus hyd yma | |
| Sgoriau boddhad y staff â'u swyddi wedi cynyddu o leiaf 7% | Rydyn ni'n blaenoriaethu llesiant y staff ac yn ystyried eu dewisiadau a'u sefyllfaoedd yn ofalus wrth drafod ac ymgynghori ynghylch dychwelyd i'r swyddfa a chydbwyso hyn ag anghenion y busnes – mae'r broses hon yn mynd rhagddi. Mae'r dull o gasglu data'n golygu defnyddio canrannau; gan hynny bydd y targed hwn yn cael ei adolygu. | Fel ar y chwith. | Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o Gynllun Llesiant y Staff a'r Adolygiadau o Ddatblygiad Proffesiynol. |
| O leiaf 5% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a chyfarwyddwyr yn arddel hunaniaeth pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a 5% ag anableddau. Bydd 1 o'r rhain mewn swydd uwch ar y staff a'r Bwrdd (pan fydd lle gwag ar gael) | Dros y cyfnod hwn roedd cyfartaledd o 13.8% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a chyfarwyddwyr yn arddel hunaniaeth pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac mae gan 0% anableddau. Mae 3 o'r rhain mewn swyddi uwch ar y staff a'r Bwrdd. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| Byddwn ni wedi gweithio gydag o leiaf 20 gwirfoddolwr | Nid oes gwirfoddolwyr wedi gweithio gyda ni yn y cyfnod uchod drwy ein prosiectau gweithgareddau. | Rydyn ni wedi gweithio gyda 7 o wirfoddolwyr ers 1 Ebrill 2021. Mae hwn yn is na'r targed oherwydd effaith COVID-19 a llai o weithgareddau wyneb yn wyneb. | |

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnyrch Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Cyffredinol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| 2 gais grant llwyddiannus i Ymddiriedolaethau a Sefydliadau am arian tuag at waith cadwraeth, gwaith atgyweirio a gwaith cynnal a chadw yn Nhŷ Newydd | Nid oes unrhyw geisiadau am grantiau gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau wedi'u cyflwyno yn y cyfnod uchod. Serch hynny, mae Llenyddiaeth Cymru wedi cael ei dderbyn, drwy broses gais, yn rhan o Academi Ddigidol Werdd Grŵp Llandrillo Menai, er mwyn elwa o ymgynghori rhad ac am ddim a chynllun gweithredu i weithio tuag at sicrhau statws carbon niwtral. | Fel ar y chwith. | Ein cyfrifon chwarterol a'n cofnod o waith codi arian |
| Lansio Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd, ac o leiaf 30 o Ffrindiau newydd yn ymuno [RHODDWYD O'R NEILLTU DROS DRO YN 21/22] | Oherwydd COVID-19, mae cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd, a fydd yn mynd law yn llaw â chynllun Ffrindiau Llenyddiaeth Cymru, wedi'i roi o'r neilltu am y tro. Nid yw'n rhan o'n strategaeth codi arian newydd, sy'n canolbwyntio ar roddion gan unigolion gwerth net uchel yn hytrach na chynlluniau ffrindiau. | | |
| Manylebau newydd ar gyfer gwaith wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith atgyweirio brys ar y tŷ haul [RHODDWYD O'R NEILLTU DROS DRO YN 21/22] | Tra bu'r ganolfan ar gau yn sgil COVID-19, rhoddwyd y rhan fwyaf o'r gwaith o'r neilltu dros dro. Serch hynny, cafodd pedair ystafell ymolchi a thoiledau cyhoeddus y ganolfan eu hadnewyddu i safon uchel yn y cyfnod uchod. Mae'r gwaith coed wedi dechrau ar y ffenestr fae yn Ystafell 9 hefyd, gyda'r gwaith gosod i ddilyn yn Chwarter 1 2022-2023. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| 2 ystafell wely wedi'u hadnewyddu i safon uchel [RHODDWYD O'R NEILLTU DROS DRO YN 21/22] | | | |
| O leiaf 85% o fynychwyr cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i wneud cynnydd fel awduron, a 90% yn datgan y byddan nhw'n dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol | Mae 88.8% o fynychwyr cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i wneud cynnydd fel awduron, a dywedodd 100% y byddan nhw'n dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol. | Fel ar y chwith. | |

# Cynnyrch Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: Hwyluso yn y Sector

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Cyffredinol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Darparu dim mwy na 10 o brosiectau blynyddol yn uniongyrchol | Mae 1 prosiect wedi'i ddarparu'n uniongyrchol yn ystod y chwarter hwn, gan gynnwys y gyfres o Sgyrsiau Creadigol. | Mae cyfanswm o 7 o brosiectau wedi'u darparu'n uniongyrchol eleni. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol yn cael eu cynnal gydol y flwyddyn. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| Rhoi cefnogaeth helaeth i o leiaf 30 o brosiectau bob blwyddyn sy'n cael eu harwain gan bartneriaid, a ninnau'n hwyluso neu'n bartner eilaidd, a rhoi cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 30 prosiect arall. | Rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth helaeth i 6 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd, ac wedi rhoi cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 1 prosiect. | I gyd, rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth helaeth i 34 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid, ac wedi rhoi cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 20 prosiect arall. | |
| Rhoi cyllid a/neu gefnogaeth nad yw'n ariannol i o leiaf 500 o unigolion, grwpiau a sefydliadau bob blwyddyn, o'i gymharu â'r rhagolwg o 400 yn 2020/2021. | Yn y cyfnod uchod, rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth nad yw'n ariannol i 93 o unigolion, grwpiau a sefydliadau. | Yn y cyfnod uchod, rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth nad yw'n ariannol i 375 o unigolion, grwpiau a sefydliadau. | |
| Ysgogi o leiaf 12 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain mewn ardaloedd lle mae angen, o'i gymharu â'r rhagolwg o 10 yn 2020/2021. | Rydyn ni wedi ysgogi 7 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain, mewn ardaloedd lle mae angen. | I gyd, rydyn ni wedi ysgogi 34 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain, mewn ardaloedd lle mae angen. | |

# Diweddariad am Darged Ychwanegol Cytundeb Cyllid Refeniw Portffolio Celfyddydol Cymru

## Diweddariadau am y Cynllun Hygyrchedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Bydd 100% o aelodau'r staff yn bresennol mewn sesiwn o Hyfforddiant Hygyrchedd i sicrhau bod ein gweithrediadau a'n gweithgareddau mor gynhwysol a hygyrch â phosibl. | Bu'r holl staff yn bresennol mewn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod a ddarparwyd gan Taking Flight Theatre, a bu 13 o aelodau'r staff mewn ail sesiwn a ganolbwyntiai ar gyfathrebu a hwyluso.<br>Cafodd y Cynllun Hygyrchedd ei adolygu'n fewnol gyda chymorth a chyngor gan Celfyddydau Anabledd Cymru. Darparwyd hyfforddiant mewnol i'r staff gan y staff a Sara Beer, Celfyddydau Anabledd Cymru. | Cofnodion y staff |
| Byddwn yn cwblhau adolygiad o'n gwefannau a thempledi dogfennau (e.e. pecyn gwybodaeth gwesteion Tŷ Newydd; taflenni cofrestru ar gyfer gweithgareddau; hysbysebion am swyddi; dogfennau galwadau agored) i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth lawn i hygyrchedd a chynhwysiant. | Rydyn ni'n datblygu ein proses galwadau agored er mwyn iddi fod mor hygyrch â phosibl, gan gynnwys sicrhau bod dogfennau galwadau a hysbysebion am swyddi yn ystyriol o ddyslecsia.<br>Mae'r holl hysbysebion am swyddi yn cynnwys enw cyswllt yn y sefydliad sy'n gallu rhoi cyngor anffurfiol am y swydd yn ogystal â chyngor am hygyrchedd, a hynny cyn y cyfweliad. | Cofnodion y staff/gwesteion |
| Byddwn yn cynnig 2 sesiwn hyfforddiant yn bwrpasol i ddatblygu mwy o hwyluswyr sy'n arddel hunaniaeth anabl er mwyn sicrhau bod ein prosiectau cyfranogol llenyddol yn cael eu harwain gan artistiaid sydd â'r un profiadau bywyd â'n cynulleidfaoedd targed. | Darparwyd 1 cyfle hyfforddiant i hwyluswyr yn 2021/22, fel rhan o brosiect Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. | Taflenni cynllunio prosiectau |

# Gwerthuso

## Gwersi Sefydliadol a Gweithredol i'w Dysgu

### Dysgu Sefydliadol

**1 Ionawr – 31 Mawrth 2022**

Nodwedd amlycaf y chwarter diwethaf fu'r newidiadau ymhlith y staff. Croesawyd Marvin i'r tîm, gan baratoi at ymadawiad Lleucu ac Elena ill dwy. Mae'r broses wedi bod yn un gymharol ddidrafferth, er bod rhai gwersi pwysig wedi cael eu dysgu at y dyfodol. Yn gyntaf, efallai y gallwn ystyried rhoi cyfnodau rhybudd hwy i aelodau allweddol o'r staff uwch, er mwyn osgoi bylchau mor hir yn y dyfodol. At hynny, wrth recriwtio rhywun o'r tu allan i'r sector, fel Marvin, dysgwyd yn gyflym iawn fod angen rhoi mwy o gymorth/prosesau cynefino ar gyfer pethau ymarferol, ac nid ynghylch elfennau penodol y swydd yn unig.

Rydyn ni wedi paratoi pecynnau recriwtio ar gyfer y 3 swydd yn ystod y chwarter hwn, ac hefyd wedi bod yn ceisio'n gorau glas i wella cynhwysiant wrth recriwtio. Rydyn ni'n awyddus i sicrhau y gallwn ddarparu deunyddiau recriwtio mewn fformatau hygyrch, fel deunyddiau sain/deunyddiau sy'n ystyriol o ddyslecsia/deunyddiau ar gyfer darllenwyr sgriniau. Cafodd y tîm lawer o hyfforddiant yn ddiweddar, fel hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod, ac mae'r staff yn awyddus i gyflwyno'r arferion gorau. Roedden ni wedi tanamcangyfrif yr amser y byddai hyn yn ei gymryd i'w gyflawni, ynghyd â'r camau y byddai angen eu cyflwyno ar gyfer y cyfweliadau ac ati pe baen ni'n cael llawer o geisiadau gan ymgeiswyr sydd ag anghenion ychwanegol. Dyma rywbeth y byddwn ni'n gweithio arno eleni i sicrhau bod ein gweithdrefnau recriwtio mor gynhwysol â phosibl.

At hynny, bu oedi gyda'n prosiect ymchwil Cyflwr y Genedl eleni. Mae'r canfyddiadau'n hynod o ddiddorol i ni'n hunain ac i'r sector yn ehangach. Serch hynny, nid ydyn nhw wastad yn rhoi darlun cadarnhaol, yn enwedig o ran y gwaith y mae rhai o'n partneriaid yn y sector yn ei wneud. Wrth feddwl yn ôl, gallen ni fod wedi rhagweld hyn a bellach mae ein hamserlen ar gyfer cyhoeddi yn hwy gan fod yn rhaid inni roi gwybod i bartneriaid/cyflwyno data'n ofalus.

### Prosiectau Gweithredol

**1 Ionawr – 31 Mawrth 2022**

Yn ystod y chwarter hwn, fe wnaethon ni baratoi llawer o systemau newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i'r dull blaenorol o gasglu data am effaith, a oedd wedi'i seilio'n drwm ar rifau. Nid oedd y staff yn hoffi'r dull hwn, gan nad oedden nhw'n teimlo'i fod yn mesur gwir effaith eu prosiectau'n llwyddiannus. Mae'r dull newydd yn symlach, ac yn cysylltu'r holl ddulliau casglu data â'n 7 Nod, drwy ganlyniadau penodol prosiectau. Mae ymateb y staff wedi bod yn gadarnhaol, er bod rhai'n ei chael hi'n anodd dechrau meddwl mewn ffordd wahanol eto. O ganlyniad, rydyn ni wedi cynyddu'r cymorth un-i-un sydd ar gael i'r staff wrth iddyn nhw ymgyfarwyddo â'r system.

Rydyn ni hefyd wedi datblygu Cofrestr Risg newydd yn ystod Chwarter 4. Roedd y system flaenorol yn dechrau mynd yn lletchwith ac nid oedd rhai aelodau o staff yn ei defnyddio'n rheolaidd gan ei bod yn gallu'u llethu. Rydyn ni bellach wedi symud risgiau prosiectau i'r daenlen ar gyfer Cynllunio Prosiectau (ynghyd â manylion ymarferol ac effaith) fel bod rheoli risgiau prosiectau yn broses fwy pwrpasol a pharhaus.

Yn Chwarter 4 cynhaliwyd cyfarfod y panel i benderfynu ar y grŵp newydd o awduron ar gyfer prosiect Cynrychioli Cymru. Cafodd aelodau'r panel eu briffio ymlaen llaw am y rhaglen, am ein strategaeth, ac am ein grwpiau blaenoriaeth (er bod rhaglen eleni'n targedu awduron o gefndiroedd incwm isel, mae'r croestoriadedd ag awduron o liw ac awduron sy'n byw ag anableddau neu salwch cronig yn bwysig inni). Serch hynny yn ystod y cyfarfod, rhoddodd y panel lai o bwyslais ar y ffactorau hyn, ac nid oedd modd i staff Llenyddiaeth Cymru ymyrryd. Pan gyhoeddwyd y grŵp o awduron, cafwyd rhywfaint o adborth negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch amrywiaeth y grŵp. Fel nad yw hyn yn digwydd eto ar banel y Bardd Cenedlaethol, bydd Leusa a Marvin yn cynrychioli Llenyddiaeth Cymru ar y panel.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwerthuso

## Gwersi i'w Dysgu o **Weithgareddau**

| Gweithgaredd | Gwersi i'w dysgu<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2022 | Argymhellion / Camau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| Bardd Cenedlaethol Cymru | Er bod y galw ar gapasiti staff yn drymach, mae'r broses newydd hon wedi bod yn un gadarnhaol, gydag ystod amrywiol o feirdd yn cael eu henwebu.  Prin iawn yw'r adborth negyddol sydd wedi dod i law gan y beirdd a enwebwyd, gan fod y broses yn ceisio lleihau nad oes amser diangen yn cael ei dreulio ar geisiadau. Gyda golwg ar gapasiti'r staff, y brif wers i'w dysgu fyddai bod angen dechrau'r broses yn gynt.<br><br>Cafwyd adborth gan un bardd, a oedd yn gwerthfawrogi'n fawr ein hymdrechion i gyflwyno prosesau tecach wrth ddethol, ond a fynegodd ei deimladau fel awdur o liw hefyd:<br><br>*"Dydw i ddim yn gyfforddus â chyflwyno'r broses ymgeisio hon ar gyfer swydd y Bardd Cenedlaethol yn enw 'cydraddoldeb', yn enwedig gan i'r deiliaid blaenorol gamu'n ddirwystr i'r swydd a hynny'n llwyr ar sail rhinweddau eu cymwysterau.  I mi, dyma enghraifft o ddisgwyl i bobl o liw brofi eu gwerth ar gyfer cyfleoedd sy'n cael eu rhoi mor rhwydd i bobl greadigol wyn."*<br><br>Rydyn ni wedi cael deialog adeiladol â'r awdur hwn, sy'n dal i wneud cais am y swydd. | • Rhannu'r gwersi i'w dysgu â'r tîm ehangach yn un o gyfarfodydd creadigol y staff. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth benodi'r ddau Fardd Plant nesaf.<br><br>• Ystyried amser a chapasiti'r staff yn ofalus. |
| Sgyrsiau Creadigol | Yn dilyn lansiad ein cyfres newydd i awduron ac arweinwyr gweithdai, rydyn ni wedi meithrin dealltwriaeth o'r arferion da wrth sicrhau bod digwyddiadau ar-lein yn hygyrch. Mae rhai gwersi pwysig i'w dysgu o'r profiadau hyn yn cynnwys trefnu dehonglwyr BSL fisoedd ymlaen llaw, darparu sgrindeitlo ar gyfer pob digwyddiad Saesneg, a threfnu cymorth stiwdio/technegol i artistiaid i ddarparu sesiynau. Roedden ni hefyd wedi deall bod angen trefnu recordiad o elfen y 'cyflwyno' ymlaen llaw, pe baen ni am ei uwchlwytho i'r wefan fel adnodd. | • Rhannu'r gwersi i'w dysgu â'r tîm ehangach mewn cyfarfod creadigol o'r staff. Bydd y gwersi hyn yn arbennig o werthfawr wrth ddarparu digwyddiadau cyhoeddus ar-lein yn y dyfodol, fel y rheini a lansiwyd o dan faner Cynrychioli Cymru.<br><br>• Newid fformat y sesiwn a chomisiynu siaradwyr ar gyfer cyflwyno'r digwyddiad i'w uwchlwytho fel adnodd ar y wefan.<br><br>• Cynnwys amrywiaeth o sgiliau sydd o ddiddordeb i artistiaid llawrydd, fel codi arian a chyflwyno. |

# Targedau: 2022 - 2023

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Ar ôl ymgynghori â Chyngor Celfyddydau Cymru, fe allwn ni rannu ein targedau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ar y tudalennau canlynol. Gyda'n gilydd, ystyriwyd ein cynnydd tuag at y nodau presennol, cyfeiriad strategol Llenyddiaeth Cymru, a'r meysydd lle hoffai Cyngor Celfyddydau Cymru weld gwelliant. Mae hyn wedi arwain at restr fer o dargedau a fydd yn galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i fod yn hyderus y byddwn yn gwneud cynnydd dros y flwyddyn nesaf.

Er enghraifft, bydd **Cynrychioli Cymru** 3 yn cael ei agor i amrywiaeth ehangach o nodweddion sy'n cael eu tangynrychioli, a byddwn yn talu i unigolion o'r cymunedau hyn i **ymgynghori** ynghylch datblygiad y cynllun. Byddwn yn parhau i ddatblygu **ein darpariaeth Gymraeg**, drwy ddatblygu ein partneriaeth â sefydliadau ym maes y Gymraeg, yn ogystal â rhoi hyfforddiant wedi'i deilwra ym maes y Gymraeg i'r holl staff ac aelodau'r bwrdd. Ein nod yw dod yn fwy strategol drwy'r prosiectau sy'n bodoli'n barod, fel **Cronfa Ysbrydoli Cymunedau**, gan annog cyrhaeddiad daearyddol ehangach a digwyddiadau Cymraeg drwy ymwneud â chynulleidfaoedd sydd wedi'u targedu.

## Targedau Eraill

Dim ond ciplun bychan o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud sy'n cael ei roi drwy'r targedau a osodir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. At hynny, mae gennyn ni broses drylwyr ar gyfer monitro effaith sy'n dangos sut y mae ein holl raglenni yn cyfrannu at ein 7 Nod. Yn Adroddiadau Sefydliadol y dyfodol, byddwn yn edrych yn fanylach ar un nod ym mhob chwarter er mwyn tyrchu'n ddyfnach i'r ystadegau a'r straeon y byddwn wedi'u casglu.

Mae gennyn ni hefyd amrywiaeth eang o dargedau gweithredol ar gyfer 22-25. I gyd-fynd â'n cynllun strategol ceir nifer o gynlluniau gweithredu gweithredol: Codi Arian; Adnoddau Dynol; Partneriaethau a Gwaddol; Cynaliadwyedd; Cyllid; Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; a Chyfathrebu. Mae gan y rhain nodau CAMPUS ar gyfer pob blwyddyn. Byddwn yn mesur ein cynnydd o dan y rhain bob chwarter, ac ym mhob adroddiad sefydliadol yn y dyfodol, bydd crynodeb o'r prif gynnydd a wnaed a'r pethau na lwyddwyd eu cyflawni mewn pryd yn y chwarter hwnnw.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Diwylliant Llenyddol Cymru** : Sicrhau mwy o ymgysylltu, gwell hygyrchedd, a mwy o effaith drwy weithgareddau ysgrifennu creadigol.

| Targets for 31 March 2023 | Current Progress | Method of data capture |
|---|---|---|
| Datblygu partneriaethau gydag o leiaf 3 o grwpiau cymunedol sy'n gweithio gyda grwpiau penodol sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn Niwylliant Llenyddol Cymru. | Yn mynd rhagddo | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Cynyddu'r canllawiau sydd ar gael fel rhan o raglen ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau, gan helpu trefnwyr digwyddiadau llenyddol ledled Cymru i ddarparu digwyddiadau cynhwysol a hygyrch. | I'w ddiweddaru yn Haf 2022 i sicrhau bod cysylltiad agos rhwng ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau a'n strategaeth, a'i bod yn hwyluso trefnwyr digwyddiadau i ddarparu mwy o ddigwyddiadau cynhwysol a glynu wrth yr arferion gorau fel lefelau ffioedd ac ati. | |
| Hyfforddi mwy o awduron drwy'r rhaglen Sgyrsiau Creadigol mewn themâu fel: diogelu, rhannu'r arferion gorau, a sut i ddarparu cyfleoedd llenyddol mewn lleoliadau cyfranogol. | Mae 12 o sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn | |
| Buddsoddi £45,000 ar raglen sy'n ceisio helpu i ddarparu cwricwlwm amrywiol yng Nghymru, sy'n cynnwys rhoi £21,000 yn uniongyrchol i awduron o liw. | Rydyn ni wedi cael £45,000 gan yr Adran Addysg i ddarparu'r rhaglen hon, sy'n dechrau ym mis Mehefin. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** : Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Sicrhau bod yr holl ddogfennau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau hygyrch, gan gynnwys fersiynau sy'n ystyriol o ddyslecsia. | Mae'r holl alwadau agored cyfredol yn cael eu darparu gyda ffurflen gais sy'n ystyriol o ddyslecsia. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Darparu trydedd rownd Cynrychioli Cymru, gan fuddsoddi'n ddwys mewn 14 o awduron, a'r rheini i gyd yn dod o gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. | Mae proses ymgynghori ar gyfer rownd nesaf Cynrychioli Cymru wrthi'n cael ei datblygu, gyda phwyslais ar agor y prosiect i amrywiaeth ehangach o nodweddion sy'n cael eu tangynrychioli. | |
| Drwy Cynrychioli Cymru, ymwneud â thua 300 o unigolion fel rhan o'r rhaglen ehangach. | Wrth raglennu Cynrychioli Cymru Dau, bydd isafswm o 3 sesiwn ar agor i'r cyhoedd. Mae sgyrsiau wrthi'n cael eu cynnal i sicrhau bod y sesiynau hyn yn fwy hygyrch drwy wasanaeth dehongli BSL, a dylid gallu defnyddio hyn hefyd fel adnodd i awduron. | |
| Monitro esblygiad y rhaglen a'i heffaith hirdymor, gan gynnwys ymwneud â'r grwpiau presennol o awduron. | Cysylltu â'r holl grwpiau o awduron Cynrychioli Cymru o leiaf ddwywaith y flwyddyn, er mwyn olrhain eu datblygiad. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Y Gymraeg:** Ymrwymo i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cyflwyno eich Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i ddiweddaru | Mae disgwyl y diweddariad ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd y cynllun ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2021 gyda chymorth Comisiynydd y Gymraeg. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Hwyluso 5 o brosiectau partneriaeth a chyfarfodydd parhaus â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn llenyddiaeth plant yn y Gymraeg | Mae'r gweithgarwch yn mynd rhagddo ac yn amrywiol. Ym mis Ebrill, mae hyn wedi cynnwys cyfarfod am bartneriaeth posibl â Penguin Random House ym maes Llenyddiaeth Pobl o Liw a chyfranogi yng Nghynhadledd y Books Trust Cymru ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Darllen er pleser yn y blynyddoedd cynnar.<br><br>At hynny, rydyn ni wedi cynnal y cwrs Stori i Bawb yn Nhŷ Newydd mewn partneriaeth â'r Cyngor Llyfrau. | |
| Yr holl staff a'r Cyfarwyddwyr i gwblhau cwrs ymwybyddiaeth wedi'i deilwra mewn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | Yn y cam cynllunio, ac mae disgwyl cynnal hyn yn hydref 2022. | |
| Meithrin partneriaethau rhyngwladol â gwledydd eraill yr ieithoedd Celtaidd, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon a'r Alban. | Mae hyn yn mynd rhagddo. Mae'r cyfleoedd presennol ar gyfer cydweithio yn cynnwys arddangosfa perfformio barddoniaeth yn yr Alban a gwaith partneriaeth gan ein Beirdd Plant gyda'r Bardd Plant Gaeleg yng Ngŵyl y Gelli ym mis Mai. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Iechyd a Llesiant**: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

<table>
<tr><th>Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023</th><th>Y Cynnydd Presennol</th><th>Y dull o gasglu data</th></tr>
<tr><td>Ehangu a datblygu ein partneriaethau cryf yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, y Reading Agency, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru.</td><td>Mae partneriaethau'n mynd rhagddyn nhw â'r Coleg Brenhinol ac ati, ac rydyn ni'n edrych ar bartneriaethau newydd ym maes iechyd a llesiant.</td><td rowspan="2">Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff</td></tr>
<tr><td>Datblygu dull strategol o greu partneriaethau cenedlaethol.</td><td>Mae archwiliad o'n partneriaethau'n mynd rhagddo, gyda'r nod o greu adnodd clir a fydd yn helpu aelodau'r staff i flaenoriaethu partneriaethau posibl, gan sicrhau ein bod yn creu partneriaethau â sefydliadau a fydd yn ein galluogi i gael yr effaith orau, gan allu canfod bylchau'n glir.</td></tr>
</table>

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod:** Yr Argyfwng Hinsawdd: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Darparu Llên mewn Lle, hyfforddi beirdd lleol i fod yn hwyluswyr llenyddol dawnus. | Mae'r cynnydd yn mynd rhagddo i sicrhau bod 3 Hwylusydd yn gweithio yn eu cymunedau erbyn mis Medi/Hydref 2022. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Canolbwyntio ar greu prosiectau lleol a datblygu cysylltiadau â'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau. | Wedi'i gynllunio ar gyfer Haf 2022, byddwn yn diwygio meini prawf y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, gan gefnogi trefnwyr digwyddiadau lleol i gynnal digwyddiadau mewn ffyrdd cynhwysol, cynaliadwy ac effeithiol. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## Mesurau sefydliadol: AD

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Recriwtio 2 gyfarwyddwr newydd i'r Bwrdd. | Wedi'i roi o'r neilltu dros dro tra bo'r broses o recriwtio'r Prif Weithredwr yn mynd rhagddi. Bydd Claire yn trafod hyn â Cathryn cyn gynted â phosibl. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ableddiaeth. | Yn y camau cynllunio | |
| Proses recriwtio'r Prif Weithredwr wedi mynd rhagddi'n llwyddiannus. | Yn mynd rhagddi | |
| Gweithio i leihau cymudo gan staff ac annog teithio llesol, gan gynnwys gosod pwyntiau gwefru ceir trydan yn Nhŷ Newydd. | Yn mynd rhagddo – Cynllun seiclo i'r gwaith wedi'i gyflwyno. Y Swyddogion Amgylcheddol yn edrych ar y grantiau posibl sydd ar gael i osod pwyntiau gwefru trydan. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## Targedau Ychwanegol

| | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **Codi Arian** | Datblygu polisi ynghylch codi arian yn foesegol (arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan). | Yr haf hwn byddwn ni'n cynnal sesiwn i'r holl staff ac ymddiriedolwyr er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â moeseg wrth godi a gwario arian. Bydd hyn yn ein galluogi i greu ein polisi ar gyfer Codi Arian yn foesegol ac i ddatblygu ein hymateb i'r Contract Diwylliannol. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| **Gweithredu** | Cyflwyno'r gronfa ddata fewnol, newydd o awduron gan dracio data am gyfleoedd cyfartal sydd wedi'u rhoi gan yr awduron eu hunain ynghyd â gwybodaeth am arbenigeddau a nodau gyrfa'r dyfodol er mwyn galluogi Llenyddiaeth Cymru i ganfod cyfleoedd addas i awduron yn well, gan ddefnyddio iaith bersonol. | Mae casgliad gan yr ymgeiswyr aflwyddiannus am swydd y Bardd Cenedlaethol wedi'i anfon i'w dreialu, gan gael 1 ymateb hyd yma. | |